CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

# Polisi a Gweithdrefn ar gyfer Trin Cwynion neu Honiadau o Gamymddwyn Difrifol gan Gymrodyr

## 1. Datganiad Polisi

Mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru (CDdC) yn sefydliad aelodaeth; ei Chymrodyr yw ei haelodau. Mae cael eich ethol i'r Gymrodoriaeth yn gydnabyddiaeth gyhoeddus o ragoriaeth, ac o gyfraniad rhagorol i fyd dysgu.

Er bod cwynion a honiadau o gamymddwyn yn erbyn Cymrodyr yn brin, mae'n bwysig cael gweithdrefnau ar waith i ymdrin â chwynion neu honiadau o'r fath a allai, os cânt eu profi, yn rhesymol gael eu hystyried yn "niweidiol i gymeriad, buddiannau neu enw da'r Gymdeithas", dan Reoliad 14.

Byddai enghreifftiau o ymddygiad o'r fath yn cynnwys:

- camymddwyn academaidd, fel twyll ymchwil neu lên-ladrad (sy'n golygu cyflwyno gwaith rhywun arall yn fwriadol neu'n dwyllodrus fel pe bai'n eiddo i chi);
- ymddygiad a ystyrir yn gamymddwyn proffesiynol gan gorff proffesiynol arall;
- ymddygiad sy'n arwain at euogfarn am drosedd ddifrifol neu berthnasol yn broffesiynol neu'n arwain at gyfnod o garchar;
- methu â chyrraedd y safonau a ddisgwylir gan Gymrodyr wrth gynnal busnes CDdC, er enghraifft drwy fethu â dilyn Egwyddorion Nolan (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth);
- aflonyddu, erlid neu fwlio eraill, neu wahaniaethu'n annheg yn eu herbyn.

Mae Rheoliad 14 yn nodi:

14.1 Bydd y Cyngor yn cynnal polisi ar gyfer ymdrin â chwynion neu honiadau difrifol yn erbyn Cymrodyr.

14.2 Bydd y polisi'n amlinellu:

- gweithdrefn ar gyfer ymchwilio i bob cwyn neu honiad o'r fath a'r

- ystod o sancsiynau y gellir eu cymhwyso os bydd ymchwiliad yn cadarnhau bod ymddygiad Cymrawd yn niweidiol i gymeriad, buddiannau neu enw da y Gymdeithas.

Yn yr achosion mwyaf difrifol, gall y sancsiwn olygu diddymu Cymrawd. Os caiff ei ddiddymu, ni fydd gan y person hwnnw hawl mwyach i ddefnyddio'r llythrennau dynodiad CCDdC (neu CCDdCAnrh, os yw'n Gymrawd Anrhydeddus); bydd ei enw yn cael ei dynnu o gofrestr y Cymrodyr; a bydd yn colli unrhyw swydd neu hawl arall a ddarperir iddynt gan y Gymdeithas.

Yn unol â Rheoliad 14, mae'r Gymdeithas felly'n darparu'r datganiad polisi hwn a'r gweithdrefnau a nodir isod ar gyfer ymdrin â chwynion a honiadau o'r fath mewn ffordd deg a chymesur. Wrth wneud hyn, bwriad y Gymdeithas yw darparu canllawiau, a sicrhau triniaeth deg i'r achwynydd (y person neu'r personau sy'n gwneud y gŵyn neu'r honiad) a'r ymatebydd (y person neu'r personau y mae'r gŵyn yn cael ei gwneud yn eu herbyn). Bydd hyn hefyd yn cynnal enw da CDdC a'i Chymrodyr.

Gall y broses o ymdrin â chwynion gynnwys sawl cam ar wahân ac amrywiol baneli neu bwyllgorau fel a ganlyn: adolygiad cychwynnol gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr; canfod ffeithiau gan Banel Ymchwilio annibynnol; adrodd i Is-Bwyllgor y Cyngor i benderfynu pa gamau gweithredu, os o gwbl, sydd angen eu cymryd; ac ymateb i unrhyw apêl gan Banel Apêl.

Y bwriad yw ni ddylai'r broses lawn, o'r gŵyn gychwynnol i'r penderfyniad terfynol hyd yn oed mewn achos anodd, gymryd mwy na 6 mis, gan gydnabod y gallai amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y Gymdeithas gynyddu'r amser sydd ei angen mewn rhai achosion.

## 2. Gweithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion neu Honiadau o Gamymddwyn Difrifol

### 2.1 Cam 1 – Gwneud Cwyn

Gall Cymrodyr neu bobl eraill wneud cwynion.

Rhaid gwneud cwynion yn ysgrifenedig, hynny yw drwy lythyr neu e-bost, a'u cyfeirio at Brif Weithredwr CDdC.

Rhaid i achwynwyr ddarparu eu henw a'u manylion cyswllt.

Rhaid i'r Prif Weithredwr gydnabod derbyn cwyn o fewn pum niwrnod gwaith, a:

- rhoi copi o’r gweithdrefnau hyn neu fynediad atynt i’r achwynydd;
- hysbysu'r achwynydd, ar ôl gwneud cwyn ffurfiol, y tybir yn bendant ei fod wedi cytuno iddi gael ei thrin yn unol â'r gweithdrefnau hyn.

### 2.1.1 Ymdrin â'r Gŵyn

Rhaid trin cwynion yn gwbl gyfrinachol.

Ni chaiff unrhyw un nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r broses o ymdrin â'r gŵyn fynediad i fanylion y gŵyn.

Ni ddylai'r Gymdeithas ddatgelu manylion cwyn oni bai ei bod dan ddyletswydd gyfreithiol i wneud hynny, er enghraifft os oes rhwymedigaethau cyfreithiol i ddatgelu yn achos materion diogelu neu honiadau o ymddygiad troseddol.

Ni ddylid rhoi gwybod i'r ymatebydd pwy yw'r achwynydd heb ganiatâd ysgrifenedig yr achwynydd.

Os ar unrhyw gam o'r broses ddilynol, mae'r rhai sy'n gyfrifol am ymdrin â'r gŵyn yn penderfynu bod gwybodaeth am hunaniaeth yr achwynydd yn ystyriaeth berthnasol er mwyn deall neu ymchwilio i'r gŵyn, rhaid i'r Prif Weithredwr gael caniatâd ysgrifenedig yr achwynydd i ddatgelu ei hunaniaeth cyn gwneud hynny.

Lle ceisir caniatâd o'r fath, rhaid hysbysu'r achwynydd, heb y caniatâd hwnnw, efallai na fydd ymchwiliad priodol i'r gŵyn yn bosibl, neu efallai na fydd yn bosibl i'r Gymdeithas fwrw ymlaen ag ymchwiliad i'r gŵyn.

### 2.1.2 Ymchwiliadau a Gychwynnir gan y Cyngor

Yn absenoldeb cwyn ysgrifenedig ffurfiol, neu os gwneir cwyn ddienw, gall y Cyngor gychwyn ymchwiliad.

### 2.2 Cam 2 — Asesiad Rhagarweiniol

Pan dderbynnir cwyn, rhaid i'r Prif Weithredwr:

- hysbysu’r Llywydd bod cwyn wedi dod i law, ar unwaith;
- hysbysu'r ymatebydd yn ysgrifenedig bod cwyn wedi'i gwneud, gan nodi manylion y gŵyn honno ond nid hunaniaeth yr achwynydd oni bai bod yr achwynydd wedi rhoi eu caniatâd dan y broses a ddisgrifiwyd uchod; ac
- anfon y gŵyn ymlaen at Ysgrifennydd Cyffredinol y Gymdeithas.

Nid oes angen i'r ymatebydd ymateb i'r gŵyn ar y cam hwn, ond gall wneud hynny os dymunant, ac os ydynt yn dymuno gwneud hynny rhaid iddynt wneud hynny yn ysgrifenedig.

Ni ddylid rhoi manylion y gŵyn i'r Llywydd.

Mae’r darpariaethau uchod yn berthnasol hefyd pan fydd y Cyngor yn cychwyn yr ymchwiliad, ac ar wahân i hynny nid oes angen hysbysu’r Llywydd os yw’n ymwybodol eisoes o’r honiad.

Rhaid i'r Ysgrifennydd Cyffredinol, ar ôl ymgynghori â'r Prif Weithredwr, benderfynu ar sail y wybodaeth a gyflwynwyd gan yr achwynydd,

- a yw'r honiadau mor ddifrifol fel bod rhaid ymdrin â nhw dan y gweithdrefnau hyn, ac os felly
- a oes achos dros ymchwilio ymhellach.

O fewn deg diwrnod gwaith i dderbyn y gŵyn, rhaid i'r Prif Weithredwr hysbysu'r achwynydd a'r ymatebydd:

- naill ai am benderfyniad yr Ysgrifennydd Cyffredinol, neu, os nad yw hyn yn ymarferol,
- am ba gynnydd sydd wedi'i wneud a'r amserlen a ragwelir ar gyfer ymdrin â'r mater.

Os penderfynir:

- naill ai nad yw'r honiad yn ddigon difrifol,
- neu, er gwaethaf y ffaith bod yr honiad yn ddigon difrifol, na ddylid cymryd camau gweithredu,

Rhaid cyfleu'r rhesymau dros y canfyddiad i'r achwynydd, yr ymatebydd a'r Llywydd.

Serch hynny, gall yr achwynydd neu'r ymatebydd ofyn i'r achos gael ei ystyried gan y Panel Ymchwilio.

Rhaid anfon cais o'r fath yn ysgrifenedig at y Prif Weithredwr o fewn deg diwrnod gwaith i'r penderfyniad gael ei gyfleu, gan ddefnyddio post cofrestredig.

Rhaid i Gadeirydd Is-bwyllgor y Cyngor ystyried y cais, a rhaid i'w benderfyniad ynghylch a ddylid bwrw ymlaen ag ymchwiliad, fod yn derfynol.

Os bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol neu Gadeirydd Is-bwyllgor y Cyngor yn penderfynu bod achos ar gyfer ymchwiliad, rhaid hysbysu'r Llywydd a rhaid gosod manylion y gŵyn gerbron y Panel Ymchwilio.

Os yw'r ymatebydd yn dewis cyfaddef yr honiadau, gellir cyflwyno'r mater i Is-bwyllgor y Cyngor heb orfod cynnal ymchwiliad.

Os, ar unrhyw gam o ymdrin â'r gŵyn, y daw i sylw y Prif Weithredwr neu'r Ysgrifennydd Cyffredinol bod yr honiad hefyd yn cael ei ystyried gan brifysgol y Cymrawd neu gyflogwr neu gorff proffesiynol arall, neu gan yr heddlu, gall yr Ysgrifennydd Cyffredinol a'r Prif

Weithredwr benderfynu peidio â bwrw ymlaen ag ymchwiliad y Gymdeithas nes bod rhai neu'r cyfan o'r prosesau eraill wedi'u cwblhau, a rhaid hysbysu'r achwynydd a'r ymatebydd o hynny.

### 2.3 Cam 3 – Panel Ymchwilio

#### 2.3.1 Diben

Swyddogaeth y Panel Ymchwilio yw gwneud y canfyddiadau sy'n angenrheidiol ac yn briodol i alluogi'r Cyngor i benderfynu pa gamau i'w cymryd mewn perthynas â'r gŵyn.

Ni chaiff y Panel ystyried nac argymell pa gamau y dylid eu cymryd yng ngoleuni ei ganfyddiadau.

#### 2.3.2 Aelodaeth

Rhaid i'r Panel gynnwys pump aelod, gan gynnwys Cadeirydd.

Rhaid i'r Cyngor benodi Cadeirydd y Panel Ymchwilio.

Wrth benodi'r Cadeirydd, rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r angen i benodi person sydd yn gyfarwydd â gofynion proses briodol a thegwch mewn achosion barnwrol neu led-farnwrol.

Ni ddylai'r person a benodir fod yn aelod cyfredol o'r Cyngor.

Bydd y Cadeirydd yn dal y swydd am gyfnod o dair blynedd o ddyddiad y penodiad.

Bydd y Cadeirydd yn penodi aelodau eraill y Panel fesul achos, gan ystyried unrhyw wybodaeth a sgiliau arbenigol a allai fod yn ofynnol i ymchwilio i achos penodol.

Rhaid i o leiaf ddau aelod o'r Panel fod yn Gymrodyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

Ni chaniateir penodi unrhyw aelod o'r Cyngor yn aelod o'r Panel.

Wrth benodi aelodau eraill y Panel, rhaid i'r Cadeirydd roi sylw dyledus i'r angen iddynt fod yn bobl o statws tebyg i Gymrodyr y Gymdeithas Ddysgedig. Gall pobl o'r fath, er enghraifft, fod yn Gymrodyr o academïau cenedlaethol priodol eraill neu'n gynrychiolwyr cyrff safonau proffesiynol priodol.

Rhaid i o leiaf un aelod fod yn annibynnol ar CDdC, hynny yw, ni ddylent fod yn Gymrawd, yn gydymaith, cynghorydd neu bartner proffesiynol y Gymdeithas.

Rhaid i o leiaf un aelod fod â gwybodaeth a phrofiad o faes gweithgarwch yr ymatebydd, os yw'n berthnasol i'r gŵyn.

Gall y Cadeirydd alw ar y Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd Cyffredinol i gynorthwyo i neilltuo aelodau Panel addas.

Ni ddylai aelodau'r panel fod:

- wedi'u cyflogi gan neu wedi'u lleoli yng ngweithle'r ymatebydd neu'r achwynydd;
- yn bartner proffesiynol neu gydymaith i'r ymatebydd neu'r achwynydd;
- yn perthyn i'r ymatebydd neu'r achwynydd drwy deulu.

### 2.3.3 Gweithdrefn

Rhaid i'r Panel gynnal yr ymchwiliad mewn modd sy'n sicrhau proses briodol a theg.

Yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd bennaf honno, gall y Panel

- fabwysiadu gweithdrefnau y mae'n eu hystyried yn briodol i natur yr achos; a,
- rhaid i'r Panel ymdrechu i gwblhau ei ymchwiliadau ac adrodd cyn gynted â phosibl.

Rhaid i'r Panel sicrhau bod gan yr achwynydd a'r ymatebydd gyfle priodol i gael eu clywed, a chael cyfle i wrthbrofi neu wneud sylwadau ar unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth a gasglwyd gan y Panel sy'n niweidiol iddo ef neu hi, neu y gellir dod i gasgliadau niweidiol ohoni. Yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd bennaf honno, nid oes gan yr achwynydd na'r ymatebydd hawl i gymryd rhan fel arall yn yr achos.

Gall y Panel gasglu tystiolaeth yn ogystal â'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr achwynydd a'r ymatebydd. Gall hyn gynnwys tystiolaeth a ddarparwyd gan dystion a nodwyd gan yr achwynydd neu'r ymatebydd, os ydynt yn cytuno i gymryd rhan.

Gall y Panel geisio cymorth cynghorwyr i roi cyngor ar unrhyw fater technegol sy'n ymwneud â'r ymchwiliad.

Gall y Panel ofyn i'r achwynydd neu'r ymatebydd ddarparu gwybodaeth, esboniadau neu dystiolaeth ychwanegol sy'n ymwneud â'r ymchwiliad iddo.

Os gwrthoda'r achwynydd neu'r ymatebydd ddarparu gwybodaeth, esboniad neu dystiolaeth ychwanegol o'r fath, neu os bydd yn methu â gwneud hynny, gall y Panel ystyried hyn wrth wneud ei ganfyddiadau.

Gall yr achwynydd a'r ymatebydd gael cymorth cyfreithiwr neu gynghorydd neu gyfaill arall, ond, yn amodol ar ofynion pennaf proses briodol a thegwch, y Panel yn unig fydd yn penderfynu sut y caiff y person hwnnw gymryd rhan yn y trafodion.

Bydd pob parti yn talu eu costau cyfreithiol eu hunain ac unrhyw gostau cysylltiedig eraill, waeth beth fo'r canlyniad.

Os yw'r achwynydd neu'r ymatebydd yn honni bod y Panel wedi methu yn ei ddyletswydd i sicrhau proses briodol a theg wrth gynnal yr ymchwiliad, rhaid gwneud yr honiad yn ysgrifenedig wedi'i gyfeirio at y Cadeirydd, a rhaid i'r Panel gynnwys testun llawn yr honiad ac ymateb y Panel iddo yn ei adroddiad.

Rhaid i'r Prif Weithredwr ddarparu cefnogaeth ysgrifenyddol i'r Panel.

Gall yr ysgrifenyddiaeth gynorthwyo'r Cadeirydd i ddrafftio'r adroddiad ysgrifenedig ar ganfyddiadau'r ymchwiliad.

Rhaid i'r Prif Weithredwr anfon copi drafft o adroddiad y Panel at yr achwynydd a'r ymatebydd, a'u hysbysu y gallant gynnig gwelliannau neu gywiriadau i ffeithiau.

Rhaid i'r achwynydd a'r ymatebydd anfon gwelliannau neu gywiriadau ffeithiau arfaethedig ymlaen yn ysgrifenedig at y Prif Weithredwr o fewn 28 diwrnod i dderbyn copi drafft o'r adroddiad.

Os bydd y Panel yn penderfynu peidio â derbyn gwelliannau neu gywiriadau arfaethedig, rhaid iddo serch hynny fanylu arnynt yn ei adroddiad a rhoi ei resymau dros beidio â'u derbyn.

Pan fydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau, rhaid i'r Panel gyflwyno adroddiad am ei ganfyddiadau i Is-bwyllgor y Cyngor.

### 2.4 Cam 4 – Adroddiad i Is-bwyllgor y Cyngor

Rhaid i'r Cyngor sefydlu Is-bwyllgor i ymdrin â chwynion a honiadau.

Bydd yr Is-bwyllgor yn cynnwys:
- dau Is-lywydd y Gymdeithas, y bydd un ohonynt yn cadeirio'r Is-bwyllgor;
- y Trysorydd;
- dau aelod arall o'r Cyngor a benodwyd gan y Cyngor i wasanaethu ar yr Is-bwyllgor am dymor o dair blynedd.

Ar ôl derbyn adroddiad y Panel Ymchwilio, rhaid i'r Is-bwyllgor benderfynu pa gamau gweithredu, os o gwbl, y dylid eu cymryd, gan gynnwys a ddylid rhoi unrhyw sancsiynau ar waith.

### 2.4.1 Sancsiynau a Chosbau am Ymddygiad Annerbyniol

Mae Rheoliad 14 yn darparu ar gyfer diswyddo Cymrodyr os canfyddir bod eu hymddygiad yn ddigonol niweidiol i gymeriad, buddiannau neu enw da'r Gymdeithas.

Mae Rheoliad 14 hefyd yn caniatáu sancsiynau llai difrifol. Gall y rhain gynnwys un neu fwy o'r canlynol:

- gwaharddiad am gyfnod penodol o fuddion Cymrodoriaeth;
- gwaharddiad rhag cymryd rhan mewn un neu fwy o weithgareddau penodol CDdC, megis dal swydd, cymryd rhan yn y broses ethol Cymrodoriaeth, ymwneud mewn pwyllgorau neu fynychu cyfarfodydd;
- cerydd ffurfiol neu lythyr gan y Llywydd at y Cymrawd dan sylw, gan ddatgan bod eu hymddygiad wedi methu â chyrraedd y safonau a ddisgwylir gan Gymrawd ac ni ddylid ei ailadrodd.

O fewn deg diwrnod gwaith i'r penderfyniad gael ei wneud, rhaid i'r Prif Weithredwr anfon ymlaen at yr achwynydd a'r ymatebydd:

- copi o adroddiad y Panel Ymchwilio, a
- phenderfyniad yr Is-bwyllgor,

a rhaid hysbysu'r achwynydd a'r ymatebydd o'r weithdrefn a'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno apêl.

Os daw'r terfyn amser i ben heb gyflwyno apêl, bydd penderfyniad yr Is-bwyllgor yn derfynol, a rhaid ei adrodd i'r Cyngor i weithredu yn unol â hynny.

### 2.5 Cam 5 - Apêl

Gall yr achwynydd neu'r ymatebydd apelio yn erbyn penderfyniad Is-bwyllgor y Cyngor.

Dim ond os allant ddangos bod pwnc neu ganlyniad yr achos yn effeithio arnynt yn uniongyrchol, naill ai'n bersonol neu'n broffesiynol, y gall achwynwyr apelio. Os bydd y Panel Apêl yn penderfynu nid yw hyn yn wir, rhaid iddo wrthod yr apêl.

Rhaid i apêl

- gael ei chyflwyno'n ysgrifenedig i'r Prif Weithredwr o fewn 28 diwrnod i roi hysbysiad o benderfyniad yr Is-bwyllgor; a,
- rhaid nodi'r sail dros apelio ac unrhyw dystiolaeth ategol.

Dim ond ar y sail ganlynol y gellir ystyried apeliadau:

- bod gwybodaeth newydd wedi dod i'r amlwg, ac os felly gall y Panel Apêl gyfeirio'r mater yn ôl i'r Panel Ymchwilio;
- bod y Panel wedi methu yn ei ddyletswydd i sicrhau proses briodol a thegwch wrth gynnal yr ymchwiliad;

- bod yr ymatebydd yn ystyried bod y sancsiwn yn anghymesur.

**2.5.1 Y Panel Apêl**

Rhaid i apeliadau gael eu hystyried gan aelodau'r Cyngor nad oeddent yn aelodau o Is-bwyllgor y Cyngor.

Bydd y Panel Apêl yn cael ei gadeirio gan y Llywydd neu, yn ei absenoldeb, aelod arall o'r Cyngor wedi'i enwebu gan y Llywydd.

Mae'r Panel Apêl angen 5 aelod i fod yn gworwm.

**2.5.2 Gweithdrefn**

Rhaid i'r Panel Apêl ystyried adroddiad y Panel Ymchwilio, ynghyd ag unrhyw wybodaeth a ddarparwyd gan yr achwynydd neu'r ymatebydd.

Gall yr achwynydd a'r ymatebydd ofyn am gyfle i gael eu clywed.

Gall aelodau Is-bwyllgor y Cyngor fod yn bresennol yng nghyfarfod y Panel Apêl pan glywir yr apêl ond ni chânt fod yn bresennol, ac ni chânt chwarae unrhyw ran yng ngwneud y penderfyniad terfynol.

Gall y Panel Apêl holi Cadeirydd yr Is-bwyllgor, ond ni ddylai fod yn bresennol ar gyfer y broses o wneud y penderfyniad terfynol, ac ni ddylai chwarae unrhyw ran yn hynny.

Rhaid cyfleu'r penderfyniad terfynol i'r achwynydd a'r ymatebydd yn ysgrifenedig o fewn 10 diwrnod gwaith i benderfyniad y Panel Apêl gael ei wneud.

Penderfyniad y Panel Apêl yw penderfyniad terfynol CDdC.

**2.6 Gwrthdaro Buddiannau ac amgylchiadau eraill sy'n gofyn am ddirprwyon**

Ar unrhyw gam o'r broses, rhaid i unrhyw un sy'n ymwneud ag ymdrin â'r gŵyn neu'r honiad sydd â gwrthdaro buddiannau mewn perthynas â'r achwynydd neu'r ymatebydd, ddatgan hyn i'r lleill sy'n gysylltiedig â'r cam hwnnw.

Ni ddylent chwarae unrhyw ran nac unrhyw ran bellach yn y broses ymchwilio neu wneud penderfyniadau.

Pan fo gan y Prif Weithredwr wrthdaro buddiannau neu pan nad yw am unrhyw reswm arall yn gallu cyflawni'r swyddogaethau a neilltuwyd iddo, rhaid i'w swyddogaethau gael eu cyflawni gan yr Uwch Swyddog Gweithredol.

Pan fo gan Gadeirydd y Panel Ymchwilio wrthdaro buddiannau neu pan nad yw am unrhyw reswm arall yn gallu cyflawni'r swyddogaethau a neilltuwyd iddo, bydd y Cyngor yn penodi Cadeirydd dros dro arall gyda'r profiad angenrheidiol.

Pan fo gan aelod o'r Panel Ymchwilio wrthdaro buddiannau neu pan nad yw am unrhyw reswm arall yn gallu cyflawni'r swyddogaethau a neilltuwyd iddo, bydd y Cadeirydd yn penodi aelod arall o'r Panel.

Pan fo gan aelod o Is-bwyllgor y Cyngor wrthdaro buddiannau neu pan nad yw am unrhyw reswm arall yn gallu cyflawni'r swyddogaethau a neilltuwyd iddo, bydd y Cyngor yn penodi aelod arall o'r Is-bwyllgor.

Pan wneir neu pan gyfeirir y gŵyn yn erbyn unrhyw Swyddog neu aelod o'r Cyngor, rhaid i'r person hwnnw beidio â chymryd unrhyw ran yn y gweithdrefnau (ac eithrio fel achwynydd neu ymatebydd) a rhaid i'r swyddogaethau a neilltuwyd i'r person hwnnw gael eu neilltuo gan y Llywydd i Swyddog neu aelod arall o'r Cyngor.

Bydd y Swyddog neu'r aelod Cyngor hwnnw hefyd yn camu i lawr o bob dyletswydd gwneud penderfyniadau CDdC tan i'r ymchwiliad gael ei wedi'i gwblhau, oni bai bod y Llywydd yn ystyried nad oes angen iddynt wneud hynny, ac yn yr achos hwnnw byddant yn rhoi rhesymau i'r Cyngor dros y penderfyniad hwn.

Os na all y Llywydd gyflawni'r swyddogaethau hyn, neu os caiff ei anghymhwyso rhag gwneud hynny, rhaid i'r swyddogaethau gael eu cyflawni gan Is-lywydd.

## 3. Cyfathrebiadau

### 3.1 Ymdrin ag Ymholiadau

Pan wneir cwyn, bydd y mater yn cael ei drin fel *sub judice*, gan gynnal yr egwyddor bod cwynion "yn cael eu trin yn gwbl gyfrinachol" (paragraff 2.1 uchod). Felly bydd CDdC yn gwrthod cadarnhau a oes cwyn wedi'i gwneud yn erbyn unigolyn a enwir, waeth beth fo'r amgylchiadau. Rhaid caniatáu i'r broses redeg ei chwrs llawn cyn y bydd unrhyw gyfathrebu sylweddol (hyd yn oed adweithiol) yn cael ei gyhoeddi.

Rydym wedi paratoi'r datganiad canlynol mewn ymateb i bob ymholiad gan y cyfryngau, Cymrodyr neu eraill:
"Mae gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru bolisi ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Cymrodyr a honiadau o gamymddwyn difrifol. Mae'r polisi i'w weld ar ein gwefan. Fel rhan o'r broses honno, nid ydym mewn unrhyw ffordd yn cadarnhau nac yn gwadu bod cwyn wedi'i chyflwyno. Os cyflwynir cwyn, bydd y broses yn digwydd yn gwbl gyfrinachol i amddiffyn pawb dan sylw a dim ond ar ôl i'r broses ddod i ben y byddwn yn gwneud sylwadau priodol. Fel sy'n wir bob amser, os oes gan Gymrawd bryderon neu wybodaeth y

mae ef neu hi'n teimlo y dylid ei dwyn i sylw CDdC, dylai hyn gael ei gyfleu i'r Prif Weithredwr yn ysgrifenedig."

### 3.2 Dod â'r Broses i Ben

Yn gyffredinol, ni fydd yn fwriad gan CDdC gyhoeddi canlyniad unrhyw gŵyn yn rhagweithiol, er y bydd atebion ffeithiol yn cael eu darparu mewn ymateb i unrhyw ymholiad a wneir i ni. Fodd bynnag, rydym yn cadw'r hawl i gyhoeddi canlyniadau unrhyw ymchwiliad mewn amgylchiadau lle teimlir ei bod yn angenrheidiol i ddiogelu uniondeb ac enw da CDdC.

## Atodiad: Datrys Cwynion a Honiadau o Gamymddwyn nad ydynt yn dod dan Reoliad 14

Gall cwynion a honiadau o gamymddwyn nad ydynt yn dod o fewn telerau Rheoliad 14 gael eu datrys yn anffurfiol gan y Prif Weithredwr ar ôl ymgynghori â'r Ysgrifennydd Cyffredinol.

Gall Cymrodyr neu bobl eraill wneud cwynion o'r fath.

Nid oes angen gwneud cwynion o'r fath yn ysgrifenedig, ond rhaid i achwynwyr ddarparu eu henw a'u manylion cyswllt.

Os yw'r Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd Cyffredinol o'r farn bod y gŵyn neu'r honiad o natur y gellid yn rhesymol ei hystyried yn niweidiol i gymeriad, buddiannau neu enw da y Gymdeithas, dan Reoliad 14, rhaid iddynt ofyn i'r achwynydd gyflwyno cwyn ffurfiol, ysgrifenedig.

Os na fydd yr achwynydd yn cyflwyno cwyn ffurfiol, ysgrifenedig, neu os bydd y Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd Cyffredinol o'r farn y gallai nifer neu amlder cwynion neu honiadau o'r fath ynghylch Cymrawd penodol gyda'i gilydd gael eu hystyried yn rhesymol yn niweidiol i'r Gymdeithas, rhaid gofyn i'r Cyngor ystyried cychwyn ymchwiliad.

Lle mae'r Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd Cyffredinol yn fodlon y gellir datrys y gŵyn yn briodol yn anffurfiol, rhaid iddynt gymryd y camau sy'n rhesymol ac yn ymarferol yn eu barn nhw i gyflawni ei ddatrysiad.

Mae'r darpariaethau canlynol hefyd yn berthnasol lle cynigiwyd datrysiad anffurfiol i gŵyn a'i dderbyn ar ôl penderfyniad nad yw cwyn neu honiad ffurfiol yn ddigon difrifol i'w thrin dan y Weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion a honiadau o gamymddwyn difrifol.

Wrth geisio datrys cwyn yn anffurfiol, rhaid i'r Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd Cyffredinol:

- sicrhau bod yr ymatebydd yn cael gwybod am y gŵyn ac yn cael cyfle rhesymol a phriodol i ymateb iddi;
- cadw at yr un lefel o gyfrinachedd ag sy'n ofynnol gan y Weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion a honiadau o gamymddwyn difrifol dan Reoliad 14;
- dilyn yr un rheolau ynghylch gwrthdaro buddiannau ac amgylchiadau eraill sy'n ei gwneud yn ofynnol i bobl ddirprwyo dan y Weithdrefn honno;

- ymdrin ag ymholiadau a chyfathrebiadau ynghylch y gŵyn yn yr un modd â'r hyn sy'n ofynnol gan y Weithdrefn honno.

Pan fydd y broses wedi'i chwblhau, rhaid i'r Ysgrifennydd Cyffredinol hysbysu'r Llywydd yn ysgrifenedig o'r:

- gŵyn; a,
- chanlyniad y broses